



# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 26AIN MEHEFIN, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**[SionMareduddOwen@gwynedd.llyw.cymru](mailto:SionMareduddOwen@gwynedd.llyw.cymru)**

**01286 679665**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 18 Mehefin 2018)

# **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

## **AELODAETH (15)**

### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels  
Charles Wyn Jones  
Olaf Cai Larsen  
Judith Mary Humphreys

Annwen Hughes  
Linda Ann Jones  
Catrin Wager  
Sedd Wag

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Dylan Bullard  
Anne Lloyd Jones  
Hefin Underwood

John Brynmor Hughes  
Dewi Wyn Roberts

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Dewi Owen

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2018-19.

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYD

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater o frys yn nhyb y cadeirydd er mwyn eu hystyried.

## 5. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2018, yn cael eu harwyddo fel rhai cywir.

## 6. MATERION TECHNOLEG GWYBODAETH

8 - 9

Diweddariad ar ddarpariaeth O365 i Aelodau.

## 7. MERCHED MEWN DEMOCRATIAETH

10 - 11

Adroddiad gan y Cyng. Catrin Wager ar y gwersi a ddysgwyd o Gynhadledd i Hybu Rôl Merched mewn Democratiaeth

## 8. DIOGELWCH PERSONNOL I AELODAU

12 - 13

Codi ymwybyddiaeth Aelodau Etholedig o'r adnoddau sydd ar gael i'w cynorthwyo.

## 9. RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL

14 - 15

Codi ymwybyddiaeth o ofynion y Ddeddfwriaeth Newydd.

---

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 12/4/18

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd).

**Y Cyngorwyr:** Annwen Daniels, Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Nia Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen a Catrin Wager.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd), Carey Cartwright (Rheolwr Gwasanaeth Dysgu a Datblygu) Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngorwyr Dylan Bullard a Linda Ann Jones

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cyng. Annwen Daniels fuddiant personol yn eitem 10 'Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Etholedig', gan ei bod yn Gadeirydd y Cyngor.

Bu i'r Cadeirydd ddatgan buddiant nad oedd yn rhagfarnu ar ran aelodau'r pwyllgor ar eitem 10 'Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Etholedig'.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2017 fel rhai cywir.

### 3. DARPARIAETH DECHNEGOL

#### Porth Aelodau

Cyflwynodd y Cynghorydd Annwen Hughes waith yr is-grŵp ar y Porth Aelodau. Nododd fod gwaith ailstrwythuro wedi ei wneud er mwyn gwella hygyrchedd y wybodaeth oedd yno. Ychwanegodd y byddai ymdrechion i gynyddu defnydd yn parhau, yn ogystal ag ymdrechion i gywain gwybodaeth fyddai o ddefnydd i aelodau.

#### Office 365

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan y Cynghorydd Annwen Hughes, oedd yn aelod o'r Is-Grŵp o'r Pwyllgor hwn a ffurfiwyd i drafod materion TG aelodau etholedig. Nododd fod rhai aelodau wedi treialu darpariaeth trwy system Office 365 gyda darpariaeth cwmwl. 'Roedd y ddarpariaeth wedi datrys nifer o'r problemau technegol oedd yn llesteirio gwaith aelodau, ac fe'i hategwyd gan yr aelodau eraill oedd yn rhan o'r is-grŵp.

Nododd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth fod cost ychwanegol oedd oddeutu £9 y pen i'r system petai'n cael ei lledaenu ymysg yr holl aelodau. Mewn ymateb i gwestiwn am ddiogelwch data nododd fod y Cyngor yn dal achrediadau gan y PSN a'r CSG ar gyfer diogelwch data llywodraeth, ac na fyddai'r Cyngor byth yn cyfaddawdu ar ddiogelwch data.

Wrth drafod lledaenu'r ddarpariaeth newydd ymysg aelodau'r Cyngor nodwyd fod angen sicrhau fod cymorth effeithiol ar gael i aelodau nad oedd yn hyderus wrth ddefnyddio'r ddarpariaeth newydd. Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth y byddai'r gwasanaeth yn rhoi'r cymorth technegol angenrheidiol i'r holl ddefnyddwyr, yn ogystal â chynorthwyo wrth osod y system newydd a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol.

Mewn ymateb i awgrym y dylid lledaenu'r system allan i'r holl aelodau yn syth, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y dylid pwylo, er bod y gwasanaeth TG yn barod i wneud hynny. Ychwanegodd fod gwersi wedi eu dysgu o geisio gweithredu'n rhy gyflym yn y gorffennol.

Cynigwyd ac eiliwyd i ehangu darpariaeth Office 365 i weddill aelodau'r Pwyllgor hwn i ddechrau.

#### **PENDERFYNWYD –**

- 1. Fod darpariaeth Office 365 yn cael ei gynnis i Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
- 2. Fod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn rheoli rhaglen lledaenu'r ddarpariaeth ymhellach, yn ddibynnol ar ddatrys unrhyw broblemau fyddai'n codi**
- 3. Fod unrhyw wersi a gwybodaeth ddefnyddiol a fyddai'n cael ei gasglu wrth osod y ddarpariaeth yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau wrth fynd ymlaen.**

#### **5. YMHOLIADAU GAN AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Nododd ei fod wedi ymholi yn dilyn sylwadau a wnaethpwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 14/12/17 ynglŷn â diffyg ymateb gan swyddogion i negeseuon aelodau etholedig. Bu iddo dderbyn 13 ymateb oedd yn amrywiol eu natur.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Fod y manylion cyswllt ar y Porth Aelodau yn aml ar lefel rhy uchel o gymharu â natur yr ymholiad.
- Fod sefydliadau eraill megis Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn defnyddio un pwynt cyswllt ar gyfer aelodau.
- Fod defnyddio Galw Gwynedd yn medru bod yn flinderus, yn enwedig wrth geisio cyfathrebu gyda rhai Gwasanaethau penodol.
- Fod y protocol yn nodi y dylid ymateb o fewn 5 diwrnod. Tra bod hynny yn fuddiol, nid oedd yn gwahaniaethu rhwng materion brys a materion eraill.
- Byddai cydnabyddiaeth o dderbyn e-bost yn fuddiol, gan y byddai'n rhoi sicrwydd fod yr ymholiad wedi ei dderbyn.

Diolchodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am y sylwadau,

#### **6. PROTOCOL AELODAU-SWYDDOG**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro, gan nodi fod y Protocol wedi ei sefydlu ers peth amser gan ddiffinio rôl a disgwyliadau wrth i aelodau gysylltu â swyddogion. Nododd ei fod yn amserol adolygu'r Protocol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei bwrpas ac er mwyn ei hyrwyddo. Byddai'r protocol yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor Safonau cyn mynd i'r Cyngor Llawn er mwyn ei fabwysiadu fel newid i'r cyfansoddiad. Y prif newidiadau oedd cyfleu yn well yr egwyddor oedd tu ôl i gymal 29.9.4 (cyfeillgarwch) ac adlewyrchu canllawiau staff yng nghymal 21.10.

Mewn ymateb i gwestiwn am gyfeillgarwch a'i berthnasedd i 'ffrindiau' ar wefannau megis facebook, nododd y Swyddog monitro fod natur 'ffrindiau' ar wefannau o'r fath yn wahanol i berthynas a chyfeillgarwch yn y cigfyd. Bu iddo hefyd atgoffa'r Aelodau o fodolaeth y canllawiau cyfryngau cymdeithasol oedd wedi eu rhannu. Nododd yn ychwanegol wrth ymateb i gwestiwn, mewn achosion o gyfeillgarwch cyn etholiad Aelod y dylid ymdrin â'r mater fel unrhyw ddatganiad arall o fuddiant personol.

Gofynnwyd pa mor gryf oedd y protocol a beth oedd ei statws. Mewn ymateb nododd y Swyddog Monitro mai diffinio proses fewnol oedd y Protocol, a thra ei fod yn bosib i achosion fynd o flaen y Pwyllgor Safonau, nad oedd iddo sail statudol.

Sylwadau eraill yn codi o'r drafodaeth:

- Fod aelodau lleol yn aml ddim yn ymwybodol o'r hyn oedd y Cyngor yn ei wneud yn eu wardiau, a'i fod yn achosi pryder fod Aelodau yn derbyn y wybodaeth gan eu hetholwyr.
- Beth oedd y camau ddylai aelod eu dilyn os oedd yn derbyn cwyn o fwlio?

Mewn ymateb nododd y Swyddog Monitro mai at achosion o fwlio swyddogion gan Aelodau oedd y Protocol yn cyfeirio. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd fod polisi bwlio mewnol yn bodoli er mwyn cyfarch a materion o'r fath.

**PENDERFYNWYD: derbyn yr adroddiad a gyrru sylwadau'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Safonau**

## 7. HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu, gan nodi fod 35 cyfle dysgu a datblygu wedi ei gynnig ar draws 87 o ddigwyddiadau. 'Roedd y gwasanaeth hefyd yn gweithio i ddatblygu darpariaeth dysgu a datblygu gan edrych a ddefnyddio dullau gwahanol o'i gynnig. Pwysleisiodd fod y rhaglen dysgu a datblygu yn rhaglen fyw, a bod adborth ac awgrymiadau yn cael eu croesawu.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod y rhaglen yn un fuddiol i aelodau. Oedd posib gwneud rhai mathau o hyfforddiant yn orfodol?
- Byddai'n fuddiol cynnig hyfforddiant ar Unconscious Bias ar gyfer Aelodau a staff.
- Tra bod y nifer oedd yn mynychu rhai digwyddiadau yn siomedig, nad oedd yn bosib i bob aelod fod yn bresennol am wahanol resymau.
- Fod parhau i ddatblygu dulliau amgen o gyflenwi hyfforddiant yn bwysig.
- Ai codi ymwybyddiaeth neu hyfforddiant oedd bwysicaf mewn rhai achosion?

Diolchodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu am sylwadau ac awgrymiadau'r Pwyllgor gan bwysleisio fod angen i'r gwasanaeth fod yn hyblyg, gan gynnig nifer o gyfleoedd a dulliau gwahanol i aelodau dderbyn cyfleon dysgu a datblygu.

**PENDERFYNWYD: derbyn yr adroddiad**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd gan amlinellu'r gefnogaeth oedd wedi ei gynnig i Aelodau dros gyfnod y Cyngor hwn, ynghyd a'r elfennau oedd yn cael eu datblygu ar eu cyfer.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Ei fod yn fuddiol gweld cylch gorchwyl y gwahanol bwyllgorau. Efallai byddai'n fuddiol ychwanegu enw pwynt cyswllt i'r adroddiad.
- Annog datblygu'r defnydd o dechnoleg megis skype.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad i'r Cyngor llawn.**

## 9. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd. Nododd fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth ddylanwadu ar Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth

Ariannol, a gwelwyd sylwadau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad y Panel. Pwysleisiodd nad oedd gan y Cyngor ddewis ond derbyn argymhellion y Panel, oni bai am gyflog Cadeirydd y Cyngor. 'Roedd Aelodau'n rhydd i dderbyn neu wrthod unrhyw gyfran o'r gydnybuddiaeth oedd yn cael ei gynnig iddynt.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Pryderu fod Aelodau etholedig yn derbyn cynnydd mewn amgylchiadau ariannol anodd.
- Croesawu mai un lefel uwch o gyflog oedd yn bodoli bellach
- Dylai Cadeirydd y Cyngor dderbyn y gyfradd uchaf o gyflog dinesig er mwyn adlewyrchu statws a phrysurdeb rôl y Cadeirydd.

Cynigwyd ac eiliwyd argymhell i'r Cyngor y dylid gosod lefel cyflog dinesig Cadeirydd y Cyngor ar lefel 1 (£24,200), gyda chyflog is-gadeirydd y Cyngor ar lefel 2 (£16,300)

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Argymhell gosod lefel cyflog dinesig Cadeirydd y Cyngor ar lefel 1 (£24,200), gyda chyflog is-gadeirydd y Cyngor ar lefel 2 (£16,300) i'r Cyngor**
- **Rhannu sylwadau'r Pwyllgor gyda'r Cyngor.**

## **10. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd gan amlinellu mai pwrpas yr adroddiadau oedd rhoi cyfle i Aelodau gyfathrebu eu gweithgareddau i'w etholwyr. Byddai canllawiau ar beth ddylid ei gynnwys yn cael ei gylchredeg gyda thempled oedd wedi ei gyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor. Nododd na chyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar gyfer 2016/17 oherwydd yr etholiad, ond bod y cyfle yn cael ei gynnig i Aelodau'r Cyngor eto ar gyfer 2017/18.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod angen mwy o bwyslais ar waith etholaethol aelodau ar y templed
- Ei fod yn fuddiol i Aelodau gadw dyddiadur er mwyn hwyluso'r broses o gynhyrchu adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn.
- Gwerthfawrogi'r cyfle i nodi pam fod Aelod yn methu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau
- Fyddai unrhyw hyrwyddo ehangach na chyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor?

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd mai dyletswydd statudol i alluogi Aelodau i gyhoeddi'r adroddiadau oedd mewn lle. Doedd yno ddim gorfodaeth i Aelodau gynhyrchu adroddiadau blynyddol. Ychwanegodd y byddai'r templed enghreifftiol yn medru cael ei addasu i gyd-fynd a chynnwys Aelodau unigol, ac na fyddai unrhyw hyrwyddo pellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.45pm.

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

<b>PWYLLGOR</b>	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
<b>DYDDIAD</b>	26ain Mehefin, 2018
<b>PWNC</b>	Diweddariad ar ddarpariaeth O365 i Aelodau
<b>AWDURON</b>	Huw Ynry a Bryn Goodman Jones

1. Yn ystod cyfarfod diwethaf y pwyllgor, fe adroddwyd yn ôl ar y peilot a sefydlwyd i gyflwyno e-bost Aelodau drwy gyfrwng cwmwl Microsoft – O365.
2. Nodwyd yn ystod y cyfarfod bod cynrychiolaeth y peilot yn hapus gyda'r ddarpariaeth newydd, er bod ambell broblem wedi bod ar hyd y ffordd, a'u bod yn awyddus i ymledu'r ddarpariaeth ym mhellach, gan gychwyn gydag aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
3. Bellach, mae 22 o Aelodau'n defnyddio'r cyfrwng newydd. Fe gysylltwyd ac oll o aelodaeth y pwyllgor hwn, gyda'r rhan helaethaf yn mudo i'r ddarpariaeth newydd. Cnewyllyn bychan sydd dal heb fudo a bydd hyn yn cael ei wneud cyn gynted gall yr Aelodau ddod i gyswllt gyda'r Gwasanaeth TG.
4. Nodwyd bod ambell broblem wedi codi yn ystod y peilot, yn benodol:
  - a. Problemau technegol gyda rhai darparwyr rhyngwyd ble roedd angen newid gosodiad (rheswm technegol – rhyng-gipiad DNS)
  - b. Nid oedd pecyn yr iaith Gymraeg ar gyfer Microsoft Office yn gweithio, ond fe weithiwyd gyda Microsoft i gael datrysiad
  - c. Swyddogion Cyngor Gwynedd yn methu agor calendrau'r Aelodau (datrysiad technegol – gosod UPN y swyddogion i'w cyfeiriad e-bost yn hytrach na rhif cyflog)
5. Mae naw Aelod wedi manteisio ar gael mynediad i'w e-byst o ddyfeisiadau personol, gyda phump yn defnyddio iPhone, dau gydag iPad a'r ddau arall yn defnyddio ffôn symudol Android.
6. Oni bai am y man broblemau gafwyd ar y cychwyn, does dim anfantais dros ddefnyddio'r gwasanaeth newydd, tra bod yna fanteision di-ri:
  - a. Defnyddio Outlook yn lle Mail i dderbyn/gyrru e-byst
  - b. Cysgeir wedi integreiddio gydag Outlook a'r gallu felly i gywiro gramadeg a sillafu Cymraeg
  - c. Dim cyfyngiadau ar fynediad at e-byst o ddyfeisiadau personol
  - d. Y gallu i rannu calendrau gyda defnyddwyr allanol
  - e. Copi wrth gefn ar gyfer ffeiliau personol
7. Byddwn yn edrych am gadarnhad bod y ddarpariaeth sydd wedi ei gyflwyno, bellach yn addas i'w raedru i weddill o'n Aelodau.



8. Mae wedi dod yn amlwg drwy weithio'n agosach gyda'r Aelodau bod ystod hyder a phrofiad y defnyddwyr yn eang ac y gall ambell garfan fanteisio gyda hyfforddiant perthnasol. Cynigir bod y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn cydweithio gyda Cefnogaeth Gorfforaethol ac Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i greu darpariaeth hyfforddi.

\*\*\*\*\*

# Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	26 <sup>ain</sup> Mehefin, 2018
PWNC	Merched mewn Democrataiaeth
PWRPAS	Adrodd ar y gwersi a ddysgwyd o gynhadledd i hybu rol merched mewn Democrataiaeth, ac adnabod y camau gweithredu nesaf.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y 26ain o Hydref, 2017 cafwyd trafodaethau ynghylch parhau i geisio hybu amrywiaeth mewn democrataiaeth. Adroddwyd fod cryn waith wedi ei wneud gan is-grwp o'r pwyllgor cyn etholiadau Mai 2017 er mwyn ceisio annog mwy o amrywiaeth, yn arbennig ym maes
  - Pobl ifanc
  - Merched
  - anabl
2. Penderfynodd y Pwyllgor fod y gwaith yma yn allweddol bwysig ac fod lle i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes, ac felly sefydlwyd is-grwp o'r newydd.
3. Fel yr adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, mae llawer i'w ddysgu trwy fynychu cyrsiau neu seminarau ar ran y Cyngor, ac os yw hynny'n digwydd, yna mae'n hanfodol fod Aelodau yn adrodd yn ôl am yr hyn y maent wedi ei ddysgu.
4. Bu i'r Cyngorydd Catrin Wager fynychu cynhaldedd 'Merched Mewn Democrataiaeth' fel aelod o'r pwyllgor hwn. Rhoddir adroddiad ar lafar gan y Cyngorydd yn ystod y cyfarfod.
5. Roedd yr hyn a drafodwyd yn ystod y gynhadledd yn seiliedig ar ddarganfyddiadau y Gymdeithas Fawcett / Fawcett Society. Cyhoeddwyd adroddiad manwyl ganddynt yng Ngorffennaf 2017 – "A yw Llywodraeth Leol yn gweithio i Ferched?" yn seiliedig ar waith ymchwil trylwyr.
6. Mae'r adroddiad yn cynnig nifer o argymhellion ar gyfer annog mwy o ferched i sefyll mewn etholiadau ar gyfer llywodraeth leol ac yn cynnig argymhellion ar sut i wella amgylchiadau o fewn llywodraeth leol, gan ganolbwyntio ar sicrhau fod gweithdrefnau yn deg i ferched.

7. Mae'r argymhellion gan Gymdeithas Fawcett yn amrywiol, gan gynnwys yr isod ymhlith eu hargymhellion;

- casglu a chyhoeddi data am broffil a chyflogau fesul rhyw o fewn awdurdodau lleol
- newid diwylliant,
- rôl grwpiau gwleidyddol,
- ymgysylltu gyda merched sy'n weithredol yn eu cymunedau er mwyn eu hannog i sefyll fel Cynghorwyr
- rôl Cyngorau Lleol i gefnogi aelodau
- polisïau penodol i gefnogi aelodau etholedig ee absenoldeb mamolaeth ayyb
- uchafswm o 4 tymor fesul aelod
- cefnogi merched i gymryd rolau arweinyddol o fewn llywodraeth leol
- fforymau mentora ar gyfer aelodau sy'n ferched er mwyn cynnig cefnogaeth i'r naill a'r llall.

8. Mae adroddiad y Comisiwn ar eu safle we.

9. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y negeseuon y mae'r Cyngorydd Catrin Wager yn eu cyflwyno, gan adnabod y ffordd ymlaen ar gyfer y gwaith o hybu democratiaeth mewn llywodraeth leol.

# Eitem 8

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	26 <sup>ain</sup> Mehefin, 2018
PWNC	Diogelwch personol ar gyfer aelodau etholedig.
PWRPAS	Codi ymwybyddiaeth yr aelodau etholedig o'r Adnoddau sydd ar gael i gynghori Aelodau ynghylch eu diogelwch personol.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Mae gan Aelodau Etholedig rôl amlwg fel ffigwr cyhoeddus. Mewn unrhyw rôl cyhoeddus, mae'n golygu fod Aelodau yn agored i gyswllt gan y gymuned ar unrhyw adeg. Mae'r cyswllt hwnnw yn gallu bod yn bositif iawn, ond, yn anffodus, ar adgau, gall hefyd fod yn negyddol.
2. Yn anffodus, gall olygu fod aelodau etholedig yn agored i gael eu cam-drin ar lafar, yn ysgrifenedig, neu ar-lein, yn gallu cael eu stelcian neu eu haflonyddu yn gyffredinol. Daeth y peryg posib i aelodau etholedig i flaen meddyliau pawb yn dilyn digwyddiad trasig marwolaeth yr Aelod Seneddol, Jo Cox yn Mehefin 2016.
3. Fodd bynnag, mae camau penodol y gellir eu cymeryd i fod yn sicrhau eich diogelwch eich hunain. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi creu canllawiau i aelodau ar gyfer ymdrin â chamdriniaeth ar-lein. Yn ogystal, maent wedi creu tudalen benodol ar gyfer diogelwch personol aelodau etholedig ar eu safle we (cyswllt isod) er mwyn cynorthwyo aelodau. Mae'r adnoddau sydd ar y safle we yn cynnwys cysylltiadau at adnoddau ar safleoedd gwe defnyddiol eraill ee Mudiad Ymddiriedolaeth Susie Lamplugh.

<http://wlga.cymru/personal-safety-for-members>

4. Hyd yma, yng Ngwynedd, nid ydym yn ymwybodol fod materion penodol wedi codi am ddiogelwch Aelodau Etholedig. Hyd yma, ni drafodwyd y mater yn y pwyllgor, er ei fod wedi ei godi gan ambell aelod fel rhan o eitem arall.
5. Felly, gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried beth yw gofynion yr aelodau o ran arweiniad ar ddiogelwch, ydyw'r canllawiau gan y WLGA yn ddefnyddiol a digonol. Gofynnir hefyd i'r Aelodau ystyried y ffordd orau o godi ymwybyddiaeth gweddill yr aelodau i'r canllawiau defnyddiol hyn.



# Eitem 9

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd
DYDDIAD	26 <sup>ain</sup> Mehefin, 2018
PWNC	Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
PWRPAS	Codi ymwybyddiaeth o ofynion y ddeddfwriaeth newydd ar aelodau etholedig yn ogystal a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt trwy hyfforddiant.
AWDUR	Helen Mary Parry, Swyddog Diogelu Data Statudol

1. Fel yr ydych eisoes yn ymwybodol, daeth deddfwriaeth Diogelu Data Cyffredinol i rym ar y 25ain o Fai, 2018.
2. Yn eich rôl fel aelod lleol, rydych yn debygol iawn o fod yn trin gwybodaeth am bobl fel rhan o'r gwaith. Felly, CHI sy'n gyfrifol am yr holl wybodaeth yr ydych yn ei ddefnyddio a'i gofnodi am unrhyw unigolyn. Gall hyn fod yn enw, cyfeiriad, dyddiad geni, ond hefyd manylion mwy sensitif, megis materion iechyd neu droseddol.
3. Byddwch eisoes yn ymwybodol ei bod yn angenrheidiol ymdrin â'r wybodaeth yma yn ddiogel, gan gymeryd gofal wrth ei rannu. Mae angen i chi gadw at reolau diogelu data.
4. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau newydd yn golygu gofynion newydd arnoch, fel a ganlyn:
  - Cadw cofnod neu gofrestr o'r wybodaeth sydd gennych
  - Dweud wrth bobl be rydych yn wneud efo'u manylion personol
  - Dweud wrth bobl beth ydi eu hawliau
  - Adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau diogelwch (breaches) difrifol o fewn 72 awr
5. Mae'n bwysig cofio fod cymorth ar gael i chi fel Aelodau Etholedig. Mae nifer o gyrsiau hyfforddiant wedi eu trefnu – gallwch gofrestru eich enw ar gyrsiau diogelwch data trwy gysylltu a'r Uned Hyfforddiant. Yn ogystal, mae fideo byr wedi ei chynhyrchu sy'n rhoi trosolwg o ofynion y ddeddf newydd. Mae ar gael ar y Porth Aelodau i chi gael ei wyllo ar amser sy'n gyfleus i chi.
6. Mae'r cyrsiau diogelu data wedi eu trefnu ar y dyddiadau a ganlyn:

DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD	CYFRWNG
Dydd Mercher, 11 Gorffennaf	10:00 – 11:30	Ystafell Ddysgu Enlli, Y Ganolfan Ddysgu, Caernarfon	Dwyieithog
Dydd Iau, 6 Medi	10:00 – 11:30	Ystafell Deudraeth, Penrhyndeudraeth	Dwyieithog

Dydd Iau, 20 Medi	1:30 – 3:00	Ystafell Ddysgu Enlli, Y Ganolfan Ddysgu, Caernarfon	Dwyieithog
Dydd Gwener, 5 Hydref	10:00 – 11:30	Ystafell Ddysgu Enlli, Y Ganolfan Ddysgu, Caernarfon	Dwyieithog